# DAVIDS, THOMAS WILLIAM (1816 - 1884), gweinidog gyda'r Annibynwyr a hanesydd eglwysig



**Enw:** Thomas William Davids
**Dyddiad geni:** 1816
**Dyddiad marw:** 1884
**Plentyn:** Thomas William Rhys Davids
**Rhiant:** W. Saunders Davids
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog gyda'r Annibynwyr a hanesydd eglwysig
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Hanes a Diwylliant; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Ysgolheictod ac Ieithoedd
**Awdur:** Richard Griffith Owen

Ganwyd 11 Medi 1816 ym Mrowyr, lle y gweinidogaethai ei dad, W. Saunders Davids, g r o Ffaldybrenin o linach David Jones, Llangan. Collodd ei rieni yn ifanc a magwyd ef gan ewythr iddo, Thomas Thomas, Llanbedr Efelffre. Bwriedid iddo fod yn feddyg ond mynnodd ddilyn llwybr ei dad. Aeth i Goleg Homerton, Llundain. Yn 1840 daeth yn weinidog eglwys Annibynnol Colchester, swydd Essex, ac yno y bu hyd 1875. Ef oedd ysgrifennydd cyfundeb Annibynnol y cylch am flynyddoedd, ac ar achlysur dathlu ail ganmlwydd Troad Allan y Ddwyfil ysgrifennodd hanes y rhai a drowyd allan yn y cylch a chyhoeddwyd ei waith, a arddangosai ôl ymchwil manwl, yn 1863. Casglasai ddefnyddiau lawer at sgrifennu cyfrol helaethach ar hanes Ymneilltuaeth yn Essex ond bu farw 11 Ebrill 1884 heb orffen y gwaith. Mab iddo oedd T. W. Rhys Davids (1843 - 1922), athro astudiaeth gymariaethol crefydd ac awdurdod ar Fwdistiaeth.

## Awdur

**Y Parchedig Richard Griffith Owen**, (1890 - 1973)

## Ffynonellau


*Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru*, ii, 441

*Oxford Dictionary of National Biography*

*Who was who?*, 1916-28


## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 1588171

Wikidata: Q18129502

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu